# ETHOLIAD COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU AR GYFER ARDAL HEDDLU GOGLEDD CYMRU

## HYSBYSIAD YNGHYLCH YR AMSER HWYRAF I YMGEISWYR GYFLWYNO ANERCHIADAU ETHOLIADOL I SWYDDOG CANLYNIADAU ARDAL YR HEDDLU

Yn unol â pharagraff 2, Atodlen 8, Rhan 1 o Orchymyn Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2012 (fel y'i diwygiwyd), rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu roi hysbysiad cyhoeddus ynghylch yr amser hwyraf i ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwn gyflwyno eu hanerchiad etholiadol.

Y terfyn amser i ymgeiswyr gyflwyno eu hanerchiad etholiadol fydd **12pm, ddydd Gwener 5 Ebrill 2024.**

1. Rhaid i'r anerchiad etholiadol gael ei baratoi gan asiant yr ymgeisydd ar y ffurflen ragnodedig, rhaid iddo gynnwys datganiad sy'n nodi iddo gael ei baratoi gan asiant yr ymgeisydd a rhaid iddo gael ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r system ar-lein electronig i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu erbyn yr amser uchod.

2. Rhaid rhoi enw a chyfeiriad yr asiant etholiadol hefyd.

3. Rhaid cyflwyno'r anerchiad etholiadol yn y Gymraeg neu'r Saesneg a chaiff yr asiant etholiadol gyflwyno cyfieithiad hefyd i'r Saesneg neu'r Gymraeg sy'n gyfieithiad cyflawn a chywir

4. Rhaid i anerchiad etholiadol nodi enw'r ymgeisydd a rhaid iddo gynnwys deunydd sy'n ymwneud â'r etholiad uchod yn unig.

5. Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd hysbysebu (heblaw deunydd sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd fel ymgeisydd yn yr etholiad).

6. Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd sy'n cyfeirio at unrhyw ymgeisydd arall ar gyfer yr etholiad

7. Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio ag ymddangos i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu i fod yn cynnwys unrhyw ddeunydd sydd â'r bwriad o sicrhau budd masnachol, nac ychwaith fod yn anweddus, yn anllad neu'n dramgwyddus.

8. Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â bod yn gyhoeddiad neu'n ddosbarthiad a fyddai'n debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd.

9. Rhaid i unrhyw ffotograff sy'n dangos yr ymgeisydd a gaiff ei gynnwys yn yr anerchiad etholiadol beidio â dangos neb arall a rhaid iddo gydymffurfio â pharagraffau 5 i 8 uchod

10. Caiff yr anerchiad etholiadol gynnwys cynrychioliad o arwyddlun cofrestredig, neu (yn ôl fel y digwydd) un o arwyddluniau cofrestredig plaid wleidyddol gofrestredig, os paratoir yr anerchiad ar ran ymgeisydd plaid awdurdodedig.

11. Pan baratoir anerchiad etholiadol ar ran ymgeisydd plaid awdurdodedig, caiff yr anerchiad gynnwys disgrifiad o dan adran 28A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 neu, os yw'r disgrifiad wedi'i gofrestru i'w ddefnyddio gan ymgeiswyr dwy blaid neu fwy, o dan adran 28B y Ddeddf honno

12. Mae'n rhaid bod modd cynhyrchu'r anerchiad etholiadol ar ffurf copi caled a chydymffurfio â gofynion y ffurflen ragnodedig

Dyddiedig Dydd Llun, 25 Mawrth 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan
Ian Bancroft, Swyddog Canlyniadau'r Ardal yr Heddlu (ardal Gogledd Cymru)
Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY / The Guildhall, Wrexham, LL11 1AY